



Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – PREIFAT – CRYNO

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

12:00 – 12:50

08/07/2025

MS Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones
-----------	------------------

Yn Bresennol (Aelodau)		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones (Cadeirydd)	MW- J	Aelod Annibynnol, Cadeirydd	IGDC
Ruth Glazzard	RG	Aelod Annibynnol, Is- gadeirydd y Bwrdd	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol, Is- gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	IGDC
Marilyn Bryan Jones	MB-J	Aelod Annibynnol	IGDC
Yn bresennol			
Henry Bales	HB	Pennaeth Atal Twyll	Gwasanaeth Atal Twyll Caerdydd a'r Fro
Stephen Chaney	StC	Pennaeth Archwilio Mewnol	Archwilio Mewnol PCGC
Nathan Couch	NC	Arweinydd Archwilio Perfformiad	Archwilio Cymru
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Mark Edwards	ME	Prif Swyddog Diogelwch a Gwybodaeth	IGDC
Joanne Jamieson	JJ	Uwch Bartner Busnes Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
Chris Moreton	CM	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid	IGDC

		a Sicrwydd Busnes	
Julie Robinson	JR	Cydlynnydd Llywodraethu Corfforaethol	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC

Ymddiheuriadau			
Claire Osmundsen-Little	COL	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	IGDC

Acronymau			
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AS	Archwilio a Sicrwydd
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	NFI	Menter Twyll Genedlaethol
BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
CRU	Uned Seibergadernid		

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
1	MATERION RHAGARWEINIOL		
1.1	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd preifat.</p> <p>Rhodddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	<p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau gan:</p> <p>Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	<p>Datganiadau o Fuddiant</p> <p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w nodi.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 2 - BUSNES Y CYFARFOD			
2.1	<p>Cofnodion Preifat heb eu cadarnhau o'r cyfarfod blaenorol ar 08 Ebrill 2025</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>GYMERADWYO'R cofnodion fel cofnod cywir o drafodaeth.</p>	Cymeradwywyd	Dim i'w Nodi
2.2	<p>Cofnod Gweithredu</p> <p>Nododd y Pwyllgor fod dau gam gweithredu wedi'u nodi o'r cyfarfod diwethaf, ac mae'r ddau wedi'u cwblhau.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI statws y Cofnod Gweithredu.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 3			
ARCHWILIO A RISG LLYWODRAETHU			
3.1	<p>Camau Gweithredu Archwilio (Preifat) Prosesau Recriwtio – Diweddariad ar Gamau Gweithredu</p> <p>Ymunodd Jo Jamieson, Uwch Bartner Busnes Pobl a Datblygu Sefydliadol, â Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu/Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau</p>		



	<p>gweithredu'r Prosesau Recriwtio. Roedd yr adolygiad wedi derbyn Sicrwydd Cyfyngedig ac felly darparwyd diweddariad manwl ar gynnydd i'r Pwyllgor at ddibenion monitro a sicrwydd.</p> <p>Rhoddodd Joanne Jamieson y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor am y cynnydd yn y maes hwn.</p> <p>Roedd tri cham gweithredu yn hwyr; dau yn ymwneud â phrosesau recriwtio ac un yn ymwneud â datblygu staff o ran Cenhadaeth 5. Ceisiodd LT estyniad i fis Medi 2025 ar gyfer y tri cham gweithredu. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid diwygio'r estyniad i Ragfyr 2025 i roi mwy o amser i reolwyr recriwtio roi adborth.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI statws y Prosesau Recriwtio ar gyfer Camau Gweithredu Archwilio (Preifat) a CHYMERADWYO'R estyniad i fis Rhagfyr ar gyfer y tri cham gweithredu archwilio.</p>		
3.2	<p>Uned Seibergadernid – Adolygiad Archwilio</p> <p>Cyflwynodd Stephen Chaney, Pennaeth Archwilio Mewnol, yr adroddiad i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y ffaith mai agwedd graidd yr archwiliad oedd rôl y Seiber-Gydnwch (CRU), a gynhelir gan IGDC. Ochr yn ochr â hynny, adolygwyd y model staffio, yn enwedig y rôl gydlynu yr oedd yn ei darparu.</p> <p>Cadarnhaodd LT y byddai rhai o'r camau gweithredu allan o reolaeth IGDC i fwrw ymlaen â nhw a byddent yn cael eu holrhain drwy'r traciwr archwilio allanol.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI'R Adolygiad Seiber er SICRWYDD.</p>	Sicrwydd	Dim i'w nodi
3.3	<p>Atal Twyll – Diweddariad ar lafar</p> <p>Rhoddodd Henry Bales (HB), Pennaeth Atal Twyll, ddiweddariad ar lafar ar ymchwiliad twyll cyfrinachol sy'n parhau.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI diweddariad ar yr ymchwiliad ar lafar i Atal Twyll.</p>	Nodwyd	Cam gweithredu: diweddariad i'r pwyllgor preifat ym mis Hydref.
3.4	<p>Adolygiad Diwylliant – Diweddariad ar y Camau Gweithredu a gymerwyd ymlaen</p>	Er Sicrwydd	Dim i'w nodi



	<p>Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, y diweddariad ar yr adroddiad camau gweithredu ar ran Sam Morgan, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor am y cynnydd yn y maes pwysig hwn.</p> <p>Gofynnir i'r Pwyllgor NODI'R diweddariad er SICRWYDD</p>		
RHAN 4	MATERION I GLOI		
4.1	<p>Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd</p> <p>Byddai'r eitemau oedd i'w hamlygu i'r Bwrdd yn cael eu trafod y tu allan i'r cyfarfod oherwydd cyfyngiadau amser.</p>	Trafodwyd	Dim i'w nodi
4.2	<p>Unrhyw Faterion Brys eraill</p> <p>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.</p>	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	<p>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:</p> <ul style="list-style-type: none">07 Hydref 2025	Nodwyd	Dim i'w nodi